# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol 2023

Amgueddfa Cymru

## Crynodeb o'r Adolygiad

| Hanes Adolygu | Dyddiad | Awdur/on | Cymeradwywyd |
|---|---|---|---|
| Fersiwn 1.0 | 18-8-23 | Nia Evans<br>Alex Deakin<br>Royston Smith | |
| | | | |
| | | | |

## Cynnwys


1. Trosolwg
2. Pwrpas
3. Cwmpas
4. Beth yw Cyfryngau Cymdeithasol?
5. Defnydd priodol a chyfrifol o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol
   5.1 Defnydd personol o'r Cyfryngau Cymdeithasol
6. Cyfrifon sy'n eiddo i'r sefydliad
   6.1 Rheoli a Pherchnogaeth Cyfrif
7. Cydymffurfio
8. Torri Rheolau
9. Hyfforddiant
10. Gweinyddu'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol


## 1. Trosolwg

Mae Cyfryngau Cymdeithasol yn arf pwysig i bob busnes, ond nid yw heb ei heriau. Mae ffiniau sy'n bodoli yn y 'byd go iawn' yn hawdd i'w 'hanwybyddu' mewn fforwm ar-lein.

Dyma beth fydd y Polisi hwn yn amlinellu:

a) Egluro beth rydyn ni'n ei olygu wrth y term 'cyfryngau cymdeithasol'

b) Nodi fframwaith o safonau ac ymddygiad disgwyliedig o ran defnydd personol o gyfryngau cymdeithasol a defnydd busnes

c) Nodi'r goblygiadau os nad yw'r safonau hynny'n cael eu bodloni

Nid yw'r Polisi hwn yn rhan o'ch contract gydag Amgueddfa Cymru.

Rydyn ni'n cadw'r hawl i ddiwygio neu dynnu'r Polisi hwn.

## 2. Pwrpas

Nod y polisi hwn yw sefydlu defnydd priodol a chyfrifol o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gan weithwyr, a hyrwyddo amgylchedd gwaith cynhyrchiol ar yr un pryd â diogelu enw da a diogelwch data Amgueddfa Cymru.

Mae'r polisi hwn hefyd yn amlinellu'r canllawiau a'r disgwyliadau ar gyfer defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n eiddo i'r sefydliad. Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu sefydlu a'u cynnal i hyrwyddo brand y sefydliad, i gyfathrebu â rhanddeiliaid, ac i ymgysylltu â'r gymuned ar-lein mewn modd proffesiynol a chyfrifol.

## 3. Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr Amgueddfa Cymru, ac unrhyw un sy'n gallu nodi ei fod yn gysylltiedig ag Amgueddfa Cymru. Mae hyn yn cynnwys contractwyr, gweithwyr asiantaeth, gweithwyr achlysurol, interniaid a gwirfoddolwyr sydd wedi cael eu hawdurdodi i gael mynediad at gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Amgueddfa Cymru a'u rheoli.

Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i'r holl weithwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr, aelodau o'r gweithlu, gwerthwyr ac asiantau sy'n cael mynediad at gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol drwy naill ai ddyfeisiau sy'n eiddo i Amgueddfa Cymru, neu ddyfeisiau personol sydd wedi'u cysylltu â rhwydwaith Amgueddfa Cymru. Mae'r dyfeisiau'n cynnwys gliniaduron, cyfrifiaduron personol, ffonau symudol a chyfrifiaduron tabled, ymhlith dyfeisiau eraill.

## 4. Beth yw 'Cyfryngau Cymdeithasol'?

Mae 'cyfryngau cymdeithasol' yn cynnwys cyfathrebiadau a rhaglenni ar-lein lle mae modd eu defnyddio i rannu cyfathrebiadau, cyfryngau a negeseuon. Mae'r agwedd 'gymdeithasol' yn cyfeirio at y ffaith eich bod yn rhyngweithio ac yn rhannu â phobl eraill.

Mae gwahanol fathau o gyfryngau cymdeithasol. Dyma rai enghreifftiau:

a) Rhwydweithiau cymdeithasol: y math mwyaf adnabyddus o gyfryngau cymdeithasol, fel Facebook, LinkedIn a Twitter.

b) Rhwydweithiau rhannu cyfryngau: Mae'r rhain yn cael eu defnyddio i rannu ffotograffau, fideos a mathau eraill o gyfryngau, fel Instagram a Snapchat.

c) Fforymau trafod: Mae'r rhain yn fforymau lle bydd modd trafod pynciau penodol o ddiddordeb, fel Reddit a Mumsnet.

d) Rhwydweithiau adolygiadau defnyddwyr: Mae'r rhain yn safleoedd sy'n eich galluogi i adael adolygiadau mewn perthynas â nwyddau, gwasanaethau a brandiau, fel TripAdvisor.

e) Blogiau: Mae'r rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer cyhoeddi erthyglau ar wahanol bynciau a rhoi sylwadau arnynt. Mae gan lawer o fusnesau eu blogiau eu hunain ar eu llwyfannau gwe corfforaethol, ac mae gan lawer o unigolion flogiau er mwyn croniclo pynciau y maent yn dymuno eu rhannu.

## 5. Defnydd priodol a chyfrifol o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol

### 5.1 Defnydd personol o'r Cyfryngau Cymdeithasol

Mae disgwyl i weithwyr flaenoriaethu tasgau gwaith a chyfrifoldebau yn ystod oriau gwaith. Dylech chi wneud cyn lleied â phosibl o ddefnydd personol ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod oriau gwaith.

Caniateir rywfaint o ddefnydd personol ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod egwylion neu gyfnodau anghynhyrchiol dynodedig. Gall gormod o ddefnydd personol o gyfryngau cymdeithasol yn ystod oriau gwaith arwain at lai o gynhyrchiant a chamau disgyblu.

Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd eich gweithredoedd ar y cyfryngau cymdeithasol, a wneir yn bersonol, yn effeithio ar eich gallu proffesiynol yn yr amgueddfa. Hyd yn oed os nad ydych chi'n enwi Amgueddfa Cymru fel eich cyflogwr, mae'n bosibl y bydd pobl sy'n eich adnabod chi ac sy'n gwybod lle rydych chi'n gweithio yn dal i wneud cysylltiad ag Amgueddfa Cymru. Mae'n bosibl hefyd y bydd pobl yn canfod gwybodaeth gan fwy nag un ffynhonnell i ddarganfod lle rydych chi'n gweithio.

Mae gan yr amgueddfa hawl i warchod ei buddiannau busnes cyfreithlon.

Yn unol â hynny, mae'n ofynnol i chi lynu wrth y canlynol:

a) Rhaid i chi beidio â gweithredu'n amhriodol wrth ryngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys ymddwyn mewn ffordd wahaniaethol, aflonyddu ar bobl eraill neu ddefnyddio iaith anweddus ar-lein.

b) Rhaid i chi beidio â gwneud datganiadau difrïol am unrhyw berson neu fusnes arall.

c) Os ydych chi'n datgelu eich cysylltiad ag Amgueddfa Cymru mewn proffil cyfryngau cymdeithasol, dylech chi wneud yn siŵr bod pob neges yn cynnal arddull a chynnwys proffesiynol priodol.

d) Rhaid i chi egluro mai eich barn chi yw unrhyw farn a roddir.

e) Rhaid i chi beidio â chyhoeddi unrhyw beth a allai roi enw drwg i Amgueddfa Cymru, neu i bobl eraill sy'n gysylltiedig ag Amgueddfa Cymru.

f) Rhaid i chi beidio â chyhoeddi unrhyw beth a fyddai'n torri hawlfraint neu hawliau pobl eraill.

g) Ni ddylech chi rannu manylion unrhyw gysylltiadau busnes yr amgueddfa ar unrhyw un o'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol.

h) Rhaid i bob cyswllt busnes rydych chi'n ei wneud wrth weithio yn Amgueddfa Cymru aros yn gyfrinachol. Eiddo deallusol Amgueddfa Cymru yw'r holl ddata cyswllt o hyd. Os byddwch chi'n gadael cyflogaeth yr amgueddfa, bydd y data cyswllt yn cael ei gadw gan Amgueddfa Cymru, a'i ddileu o unrhyw ddyfais bersonol a storfeydd cyswllt.

i) Dim ond eich enw eich hun y dylech chi ei ddefnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol, a rhaid i chi beidio â defnyddio persona neu enw arall, p'un a yw'n enw go iawn ai peidio.

Pan fydd eich gweithredoedd ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar Amgueddfa Cymru, mae'n bosibl y byddwn ni'n cymryd camau disgyblu yn eich erbyn.

## 5.2 Ymddygiad proffesiynol

Os ydych chi'n postio neu'n gwneud sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol fel cynrychiolydd Amgueddfa Cymru, mae'n bwysig eich bod chi'n ymddwyn yn briodol ac mewn ffordd sy'n cynnal ein gwerthoedd ni.

Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae disgwyl i weithwyr ymddwyn yn broffesiynol, yn union fel y byddent yn ymddwyn mewn amgylchedd gwaith wyneb yn wyneb.

Rydyn ni'n annog staff i fod yn eiriolwyr dros y brand wrth ddefnyddio eu cyfrifon personol, ac rydyn ni hefyd yn parchu rhyddid barn pob unigolyn sy'n gysylltiedig â'r amgueddfa. Er y bydd proffiliau personol a busnes yn gorgyffwrdd ar adegau, gofynnwn i bob aelod o staff a'r bobl sy'n gweithio gyda'r amgueddfa fod yn ystyriol wrth gymysgu busnes a bywydau personol. Rhaid i chi gofio y bydd ymwelwyr, rhanddeiliaid, partneriaid a chydweithwyr yn aml yn gallu cael gafael ar y cynnwys ar-lein rydych chi'n ei bostio. Cadwch hyn mewn cof, yn enwedig wrth bostio cynnwys a fwriedir yn wreiddiol ar gyfer teulu a ffrindiau. Pan fydd y cynnwys yn gyhoeddus, mae cynulleidfa ehangach yn gallu gweld yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhannu, a bod modd cipio a/neu anfon y cynnwys ymlaen.

Os ydych chi'n dod ar draws negeseuon negyddol neu ddifrïol am Amgueddfa Cymru, neu os ydych chi'n gweld trydydd partïon yn ceisio dechrau sgyrsiau negyddol ar-lein, cymerwch giplun a throsglwyddo'r wybodaeth i'r tîm marchnata a chyfathrebu. Peidiwch â chymryd rhan yn y sgwrs eich hun. Mae gan Amgueddfa Cymru brosesau ar waith i ddelio â hyn.

## 5.3 Defnydd Personol yn erbyn Defnydd Proffesiynol

Gwahaniaethwch yn glir rhwng cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol a phroffesiynol.

Peidiwch â defnyddio cyfrifon sy'n eiddo i'r sefydliad at ddibenion personol na swyddi nad ydynt yn gysylltiedig â'r sefydliad.

## 5.4 Preifatrwydd a Diogelwch

Peidiwch â rhannu gwybodaeth bersonol na sensitif am y cwmni ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys data ariannol, gwybodaeth am gwsmeriaid a dogfennau mewnol, ymhlith gwybodaeth eraill.

Byddwch yn ofalus wrth dderbyn ceisiadau i fod yn ffrind neu gysylltiadau gan unigolion nad ydych yn eu hadnabod yn bersonol, gan y gallent beryglu eich preifatrwydd ar-lein neu ddiogelwch Amgueddfa Cymru.

## 5.5 Rheoli Enw Da

Mae gweithwyr yn cynrychioli'r cwmni, hyd yn oed ar eu proffiliau cyfryngau cymdeithasol personol. Felly, dylech chi osgoi gwneud datganiadau a allai gael effaith negyddol ar enw da Amgueddfa Cymru.

Os ydych chi'n rhannu barn ar bynciau sy'n ymwneud â'r diwydiant, nodwch yn glir bod y safbwyntiau'n bersonol ac nad ydynt yn adlewyrchu barn Amgueddfa Cymru.

## 5.6 Monitro

Mae'n bosibl y byddwn ni'n monitro, yn rhyng-gipio ac yn adolygu unrhyw weithgarwch cyfryngau cymdeithasol a wneir gan ddefnyddio ein systemau TG a chyfathrebu, fel y caniateir o dan ein polisïau "Diogelu Data" a "Defnydd Derbyniol".

Mae'n bosibl y byddwn ni'n monitro, yn rhyng-gipio ac yn adolygu negeseuon a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol os yw'r negeseuon hynny'n gyhoeddus. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn adolygu unrhyw gynnwys mewn fforwm preifat neu fforwm 'aelod yn unig' neu unrhyw gynnwys wedi'i ddileu mewn fforwm cyhoeddus neu breifat sy'n cael ei ddwyn i'n sylw.

### 5.7 Defnyddio Adnoddau'r Cwmni:

Dylai'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol ar ddyfeisiau a rhwydweithiau sy'n eiddo i Amgueddfa Cymru fod yn gysylltiedig â gwaith yn bennaf. Caniateir rhywfaint o ddefnydd personol, ond ni ddylai amharu ar gyfrifoldebau gwaith.

Ni chaniateir ffrydio fideos, chwarae gemau, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau lled band dwys eraill ar rwydweithiau cwmni ar gyfer adloniant personol.

### 5.8 Seiberddiogelwch

Peidiwch â chlicio ar ddolenni amheus na lawrlwytho ffeiliau o ffynonellau heb eu dilysu, gan y gallent gyflwyno maleiswedd neu beryglu data'r Amgueddfa.

Peidiwch â rhannu manylion mewngofnodi na gwybodaeth bersonol drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

## 6. Cyfrifon sy'n Eiddo i'r Sefydliad

### 6.1 Rheoli a Pherchnogaeth Cyfrifon

Dim ond gweithwyr, cynrychiolwyr neu dimau dynodedig sydd wedi'u hawdurdodi i gael mynediad at gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n eiddo i'r sefydliad, a'u rheoli.

Rhaid i fanylion mynediad (enwau defnyddiwr a chyfrineiriau) gael eu storio'n ddiogel, a dim ond â staff awdurdodedig y dylid eu rhannu. Dylai cyfrineiriau lynu wrth "Bolisi Cyfrineiriau" Amgueddfa Cymru.
Ni fydd unrhyw gyfrifon newydd, sydd â chysylltiad ag Amgueddfa Cymru, yn cael eu creu heb gymeradwyaeth gan y Gweithgor Digidol.
Bydd llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, datrysiadau rheoli cynnwys a chyfrifon yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Gweithgor Digidol.

Bydd gwybodaeth am berchnogaeth cyfrif a hawliau mynediad yn cael eu hadolygu i adlewyrchu newidiadau mewn rolau neu gyfrifoldebau.

Rhaid i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol fod yn gynaliadwy, a rhaid iddynt gael eu sefydlu ar gyfer y tymor hir. Ni ddylid sefydlu cyfrifon newydd ar gyfer projectau byr, e.e. arddangosfeydd dros dro. Dylid anfon unrhyw geisiadau i greu cyfrifon newydd at y Gweithgor Digidol.

### 6.2 Canllawiau Cynnwys

Mae pob deiliad cyfrif yr Amgueddfa yn gyfrifol am eu cynnwys a'u hallbwn.

Rhaid i'r holl gynnwys sy'n cael ei rannu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac sy'n eiddo i'r sefydliad gyd-fynd â gwerthoedd, hunaniaeth brand a rhwymedigaethau cyfreithiol y sefydliad.

Dylai'r cynnwys fod yn berthnasol, yn gywir ac yn amserol. Cofiwch wirio ffeithiau'r wybodaeth cyn ei rhannu.

Peidiwch â rhannu gwybodaeth gyfrinachol, sensitif neu berchnogol am y sefydliad, gweithwyr na rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys delweddau y-tu-ôl-i'r-llen sy'n dangos coridorau neu ffenestri mewn cyd-destun, rhifau drysau, neu union leoliad unrhyw beth. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gynlluniau llawr.

Parchu hawlfraint a hawliau eiddo deallusol. Dim ond rhannu cynnwys y mae gan y sefydliad yr hawliau angenrheidiol ar ei gyfer y dylech chi ei wneud. Os nad ydych chi'n siŵr am y defnydd o'r cynnwys, cofiwch ofyn.

Defnyddiwch iaith, tôn a delweddau priodol sy'n adlewyrchu proffesiynoldeb a pharch at gynulleidfaoedd amrywiol.

### 6.3 Ymgysylltu â Dilynwyr a Defnyddwyr

Ymatebwch yn brydlon i sylwadau, cwestiynau a negeseuon gan ddilynwyr, gan gynnal tôn barchus a defnyddiol.

Cymerwch ran mewn sgyrsiau ystyrlon, gan ddarparu gwybodaeth gywir a mynd i'r afael â phryderon yn briodol.

Peidiwch â chymryd rhan mewn ymosodiadau personol, iaith anweddus na phynciau sensitif a allai niweidio enw da'r sefydliad.

### 6.4 Argyfyngau a Dadleuon

Os bydd argyfwng neu fater dadleuol, dilynwch brotocolau cyfathrebu sefydledig yr amgueddfa.

Yn Amgueddfa Cymru, rydyn ni'n credu y dylid cydnabod a dathlu ein gwahaniaethau. Drwy ein llwyfannau digidol, rydyn ni eisiau darparu amgylchedd diogel lle gall pawb rannu eu barn a'u safbwyntiau â'i gilydd, er mwyn cael deialog barchus lle mae pob unigolyn yn cael ei drin ag urddas a pharch. Nid yw Amgueddfa Cymru yn goddef, yn esgusodi nac yn cefnogi gweithredoedd neu sylwadau sy'n cael eu hystyried yn gas, a byddwn yn cymryd camau i ddileu unrhyw gynnwys sy'n mynd yn groes i werthoedd Amgueddfa Cymru.

Dylai staff dynodedig reoli'r ymateb, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid ac osgoi dyfalu neu gamwybodaeth.

Os nad ydych chi'n siŵr sut i ymateb, holwch y tîm rheoli neu'r tîm cyfathrebu cyn postio.

### 6.5 Hyrwyddo a Hysbysebu

Dylai hyrwyddiadau a hysbysebion lynu wrth ddeddfau, rheoliadau a safonau hysbysebu perthnasol.

Dylech chi nodi'n glir pryd mae cynnwys yn hyrwyddol ei natur er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cyfreithiau perthnasol a safonau hysbysebu, ac er mwyn osgoi bod yn gamarweiniol.

### 6.6 Monitro a Metrigau

Mae Amgueddfa Cymru yn monitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd o ran sylwadau, negeseuon a chyfeiriadau.

Mae Amgueddfa Cymru yn tracio metrigau ymgysylltu (hoffi, rhannu, gwneud sylw) i asesu effeithiolrwydd unrhyw gynnwys ac ymgyrchoedd.

Mae Amgueddfa Cymru yn defnyddio offer dadansoddi i wella strategaeth a gweithgareddau ymgysylltu unrhyw gynnwys.

### 6.7 Diogelwch a Phreifatrwydd

Dilynwch bolisïau seiberddiogelwch a phreifatrwydd y sefydliad wrth gael mynediad at gyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Byddwch yn wyliadwrus o ymdrechion gwe-rwydo neu ymdrechion mynediad heb ei awdurdodi i atal rhag toriadau cyfrif.

Cofiwch osgoi rhannu gwybodaeth bersonol neu sensitif drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Os ydych chi wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol (fel LinkedIn) i storio neu gronni cysylltiadau busnes yn ystod eich cyflogaeth gyda ni, caiff y data ei ystyried fel data Amgueddfa Cymru.

Mae'n bosibl y byddwn ni'n gofyn i chi wneud y canlynol…

a) rhoi mynediad i'r awdurdodau priodol at eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, os byddwn yn canfod unrhyw weithgarwch anghyfreithlon neu ddifenwol.

b) rhoi data cyswllt a gafwyd yn ystod eich cyfnod cyflogaeth i Amgueddfa Cymru.

Peidiwch â phostio lluniau adnabyddadwy o bobl, heb eu caniatâd penodol i wneud hynny. Mae hyn hefyd yn berthnasol i luniau grŵp. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: Llawlyfr Staff.

### 6.8 Hyfforddiant ac Addysg

Bydd Amgueddfa Cymru yn darparu hyfforddiant i weithwyr sydd wedi'u hawdurdodi i reoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod staff yn gyfarwydd â nodweddion llwyfannau, arferion gorau, a'r polisi hwn.

### 6.9 Rhoi gwybod am Bryderon

Os bydd gweithiwr yn dod ar draws unrhyw gynnwys amhriodol sy'n ymwneud ag Amgueddfa Cymru neu gydweithwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, dylai roi gwybod i'r rheolwyr amdano.

Os bydd gweithiwr yn dod ar draws bygythiadau seiber neu achosion o dorri diogelwch, dylai roi gwybod i'r adran TG ar unwaith.

## 7. Cydymffurfio

### 7.1 Mesurau Cydymffurfio

Bydd y Gweithgor Digidol yn goruchwylio cydymffurfiad â'r polisi hwn.

### 7.2 Eithriadau

Rhaid i'r Gweithgor Digidol gymeradwyo unrhyw eithriad i'r polisi.

### 7.3 Diffyg Cydymffurfiaeth / Torri rheolau'r polisi

Gall torri'r polisi hwn gael ei ystyried fel camymddwyn difrifol, ac felly gall arwain at ddiswyddo.

Mae'n bosibl y byddwn ni'n gofyn i chi ddileu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol sydd, yn ein barn ni, yn amhriodol neu nad ydynt yn cydymffurfio â'r Polisi hwn. Gall methiant i gydymffurfio ag unrhyw gais a wneir arwain at gymryd camau disgyblu.

## 8. Torri Rheolau Polisi

Gall torri rheolau'r polisi hwn gael ei ystyried fel camymddwyn difrifol, a allai arwain at ddiswyddiad diannod.

## 9. Adolygiadau a Diweddariadau

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

Bydd staff perthnasol yn cael gwybod am ddiweddariadau i'r polisi.

Drwy lynu wrth y polisi hwn, gall cyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n eiddo i'r sefydliad gyfrannu'n effeithiol at nodau'r sefydliad, gwella ei enw da, a chynnal presenoldeb cadarnhaol ar-lein.

## 10. Gweinyddu'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

10.1 Y Gweithgor Digidol sy'n gyfrifol am lywodraethu'r polisi hwn. Y Tîm Digidol sy'n gyfrifol am weinyddu'r polisi hwn.

## Dolenni a chysylltiadau defnyddiol

Mae'r polisïau mewnol canlynol yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ychwanegol:

[*Polisi Disgyblu*]

[*Polisi Cyfrifiaduron, E-byst a'r Rhyngrwyd*]

[*Polisi Cwynion*]

[*Polisi Diogelu Data*]